



Swyddog Ymgysylltu Digidol

Disgrifiad o'r swydd

Gradd	Gradd C
Math o gontract	21 awr yr wythnos (3 diwrnod yr wythnos) tan 31 Mawrth 2025
Cyfarwyddiaeth	Mind Cymru
Y tîm	Amser i Newid Cymru
Yn atebol i	Arweinydd Ymgyrchoedd a Strategaeth
Yn gyfrifol am	Neb
Lleoliad	Hyblyg – yn debygol o fod yn gymysgedd hybrid o weithio gartref ac amser yn swyddfa Stratford/Caerdydd
Oriau	21 awr yr wythnos

Gwybodaeth am y swydd

Wrth i Amser i Newid Cymru ddechrau ar ei bedwerydd cam, rydyn ni'n bwriadu symud i gyfeiriad newydd a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd yng Nghymru. Bydd cam pedwar yn gweld newid sylweddol yn y ffordd rydyn ni'n ymgysylltu ac yn hyrwyddo'r ymgyrch yng Nghymru, sy'n cynnwys mynd i'r afael â stigma iechyd meddwl mewn cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a chryfhau'r ddarpariaeth llesiant yn y gweithle mewn lleoliadau gofal iechyd a chymunedau difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol. Gan weithio'n agos gyda'r Arweinydd



Ymgyrchoedd a Strategaeth a'r Swyddog Marchnata a Chyfathrebu, prif bwrpas swydd y Swyddog Ymgysylltu Digidol fydd:

- Cyflawni gweithgareddau ymgysylltu digidol o ddydd i ddydd ar gyfer y rhaglen, gan ganolbwyntio'n benodol ar gynulleidfaoedd targed newydd yn unol ag amcanion cyffredinol strategaeth a rhaglen Marchnata Amser i Newid Cymru.
- Cyfrannu at ymgyrch uchel ei phroffil o ansawdd uchel yng Nghymru o ran lleoli a negeseua, gan gynnwys ym maes cyfathrebu rhaglenni, cysylltiadau cyhoeddus, marchnata a chyfathrebu.
- Gweithio'n agos gyda'r Arweinydd Ymgyrchoedd a Strategaeth a'r Swyddog Cyfathrebu a Marchnata i sicrhau dull gweithredu cwbl integredig ar gyfer ymgysylltu'n ddigonol ar draws sianeli ar-lein.
- Gwella profiad defnyddwyr ac ymgysylltiad digidol â'r ymgyrch drwy'r wefan, asedau digidol creadigol, a chreu calendr cynnwys rheolaidd ar gyfer sianeli cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau digidol.

Prif Gyfrifoldebau

1. Gweithio gydag Arweinydd Ymgyrchoedd a Strategaeth i ddatblygu cynllun ymgysylltu digidol cwbl integredig a dwyieithog, mewn ymgynghoriad â phartneriaid y rhaglen, i sicrhau cyfathrebu digidol rhagorol o fewn y rhaglen ac yn allanol gyda rhanddeiliaid allweddol.
2. Cydlynu a darparu rhaglen o weithgareddau cyfryngau a chyfathrebu ar-lein yn unol â cherrig milltir y cytunwyd arnynt, a rheoli cynnwys y wefan, er mwyn codi proffil digidol rhaglen Amser i Newid Cymru a'i holl elfennau.
3. Cwmpasu, cynllunio a rheoli prosiect amrywiaeth o brosiectau digidol ar draws llwyfannau Mind, gan gynnwys elfennau o'r wefan a chysylltu ag asiantaethau digidol.
4. Gan weithio gyda'r Arweinydd Ymgyrchoedd a Strategaeth, llunio a chreu deunyddiau cyfathrebu a chopi digidol dwyieithog grymus ar gyfer yr ymgyrch farchnata ddigidol.
5. Datblygu datrysiadau cyfathrebu digidol dwyieithog cost-effeithiol, drwy ddefnyddio'r holl adnoddau a sianeli cyfathrebu ar-lein sydd ar gael yn effeithiol, gan fod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf.

6. Canfod, casglu a dosbarthu naratifau digidol gan unigolion sydd â phrofiad uniongyrchol drwy greu proffiliau o unigolion fel llysgenhadon gwrth-stigma.
7. Hwyluso cyfleoedd ar gyfer cael deialog gymdeithasol a thrafodaeth ar stigma a gwahaniaethu drwy ddefnyddio llwyfannau digidol a defnyddio gwybodaeth, mewnwelediad a dadansoddeg i sicrhau'r profiad gorau posibl i ddefnyddwyr.
8. Datblygu, cyflwyno a monitro offer cyfathrebu digidol ar draws y rhaglen, a'u mesur yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt at ddibenion gwerthuso.
9. Cefnogi Arweinydd Ymgyrchoedd a Strategaeth i ddarparu cyfathrebiadau digidol mewnol i sicrhau bod prosiectau a meysydd unigol a'r rhwydwaith gweithredwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y rhaglen – gan gynnwys golygu'r wefan.
10. Gweithio'n agos gyda staff ar draws y rhaglen ac o fewn y sefydliadau partner i sicrhau bod gwaith cyfathrebu digidol yn cael ei gydlynu i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl, gan gynnwys gweithgarwch yn y cyfryngau, a chyfathrebu â rhanddeiliaid allweddol.
11. Cyfrannu at adroddiadau rheoli'r rhaglen a chasglu data ystadegol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol, gan fonitro, gwerthuso ac adrodd ar weithgarwch ac ymgysylltiad digidol.
12. Rhagweld ac olrhain y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer cyfathrebu digidol rhaglenni.
13. Unrhyw ddyletswyddau eraill o fewn cwrdd cyffredinol y swydd a bennir o bryd i'w gilydd.

Disgwyliadau

Rydyn ni wedi ymrwymo i fod yn wrth-hiliol ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud. Mae hyn yn flaenoriaeth hollbwysig i Mind. Rydyn ni'n croesawu amrywiaeth ac yn deall y bydd bod yn sefydliad cynhwysol, sy'n cydnabod gwahanol safbwyntiau, yn ein galluogi i ddarparu gwasanaethau rhagorol. Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod ein holl weithwyr yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal yn y gwaith ac i hyrwyddo tegwch i bawb o ran iechyd corfforol a meddyliol.

Disgwyliadau'r swydd:

- Cyfrannu at y genhadaeth gyffredinol o gael Cymru gynhwysol lle nad yw stigma iechyd meddwl a gwahaniaethu yn cyfyngu ar fywydau pobl.



- Gweithio mewn amgylchedd partneriaeth, gan sicrhau bod anghenion y rhaglen ar draws y gwahanol bartneriaid yn cael eu hystyried bob amser.
- Sicrhau bod yr holl gyfrifoldebau a'r gweithgareddau a gyflawnir yn y swydd hon yn cyd-fynd â thelerau ac ysbryd Polisi Cyfle Cyfartal Mind, gan gynnal gwerthoedd Mind a bod yn hyrwyddwr Mind Cymru ac Amser i Newid Cymru bob amser.
- Gweithio'n bennaf yn swyddfeydd Mind Cymru yng Nghaerdydd ond, o bryd i'w gilydd, disgwylir i ddeiliad y swydd deithio y tu allan i Gaerdydd.
- Mynychu a chyfrannu at y broses oruchwylio ac arfarnu, yn ogystal â chyfarfodydd tîm yn ôl yr angen.
- Bod yn hyblyg ac ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sydd o fewn cydestun a graddfa'r swydd hon.
- Datblygu perthynas gadarnhaol gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Hyrwyddwyr, Cyflogwyr ac asiantaethau cyflenwi.
- Cyfrannu at weithio tuag at wneud Mind yn weithle mwy gwyrdd.
- Mynychu a chyfrannu at hyfforddiant staff yn ôl y gofyn.
- Cyfrannu at amgylchedd gwaith cadarnhaol a chefnogol.
- Cefnogi a chyfrannu at ein nod cyffredinol o gyfranogiad defnyddwyr/goroeswyr, gan gynnwys ym Mind ac ymrwymo i weithio ochr yn ochr â defnyddwyr/goroeswyr, fel cydweithwyr, arbenigwyr ac ymgyrchwyr (cyflogedig a di-dâl).
- Bod yn gyfarwydd â datblygiadau mewnol ac allanol ac ymateb yn unol â nhw.
- Bodloni gofynion cyfreithiol a statudol perthnasol gan gynnwys y Ddeddf Diogelu Data (gan sicrhau lefel briodol o gyfrinachedd bob amser), Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (gan sicrhau eich Iechyd a Diogelwch eich hun a phobl eraill bob amser) ac unrhyw gyfraith elusennol/berthnasol arall.

Mae disgwyl i bob aelod o staff Mind ymgorffori ein cenhadaeth, ein gwerthoedd a'n cymwyseddau. Mae hyn yn cynnwys disgwyliad y byddan nhw'n:

- Dangos brwdfrydedd dros yr hyn mae Mind yn ei wneud a'r newidiadau rydyn ni'n eu gwneud i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.
- Cydweithio ar draws timau, adrannau, lleoliadau a sefydliadau.



- Sefyll yn gadarn dros yr hyn maen nhw'n ei gredu sydd orau, ac ymddiried yn ddyn nhw eu hunain ac yn ei gilydd.
- Bod yn agored i bobl eraill ac i ni ein hunain, a dangos ymrwymiad i ddysgu.
- Bod yn agored i newid, ac ymateb yn hyblyg ac yn gyflym i fyd sy'n newid.
- Dangos ymwybyddiaeth o'r sefydliad, a gweld y darlun ehangach wrth weithio tuag at amcanion.
- Cyfathrebu'n effeithiol, gan sicrhau bod eu negeseuon yn cael eu deall a'u bod yn ymdrechu i ddeall pobl eraill.
- Gwerthfawrogi amrywiaeth a thrin pobl eraill â pharch, gan ddangos sensitifrwydd tuag at wahaniaethau, hyrwyddo ac annog amrywiaeth, ac adeiladu ar wahanol sgiliau a thalentau pobl er mwyn gwella ansawdd eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill.
- Bod yn gyfrifol am eu penderfyniadau.
- Mynychu a chyfrannu at hyfforddiant staff Mind ac unrhyw hyfforddiant arall y tybir ei fod yn briodol i'r swydd.
- Teithio i gyfarfodydd yng Nghymru a Lloegr o bryd i'w gilydd a/neu weithio oriau anghymdeithasol, a allai olygu bod angen aros dros nos, yn ogystal â gweithio fin nos neu ar y penwythnos.
- Sicrhau bod yr holl gyfrifoldebau a'r gweithgareddau sy'n rhan o'u swydd yn unol â thelerau ac ysbryd cenhadaeth, gweledigaeth, gwerthoedd, polisïau a gweithdrefnau Mind.
- Bodloni gofynion cyfreithiol a statudol perthnasol gan gynnwys y Ddeddf Diogelu Data, y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a chyfraith elusennau berthnasol.
- Bod yn barod i weithio'n hyblyg (ee desgiau poeth, gweithio gartref) yn unol ag anghenion y busnes
- Cynnal lefel briodol o gyfrinachedd bob amser.
- Cyfrannu at wneud Mind yn weithle mwy gwyrdd.

Manylion y person

Meini prawf hanfodol



Profiad

1. Profiad o weithio mewn swydd ymgysylltu ddigidol.
2. Llwyddiant amlwg o ran darparu cynnwys digidol cwbl integredig, sy'n gallu addasu i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
3. Profiad o weithio gyda'r cyfryngau digidol, gan gynnwys delio ag ymholiadau, ac ymchwilio i gyfleoedd.
4. Profiad o adolygu'r gwaith o ddatblygu a hwyluso'r gwaith o gynhyrchu offer perthnasol, er enghraifft Photoshop, Mailchimp, Hootsuite, Google Analytics a hysbysebion Facebook i gefnogi cyfathrebiadau digidol gan gynnwys cyhoeddi ar-lein.

Sgiliau a Galluoedd

1. Gallu amlwg i ysgrifennu a golygu copi digidol hynod ddiddorol ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol a phrawf ddarllen i safon ragorol.
2. Gallu amlwg i sefydlu a chynnal cymunedau digidol a denu cynulleidfaoedd newydd ar-lein a monitro cynnydd.
3. Sgiliau rheoli prosiectau da, gallu i weithio'n rhagweithiol o'ch pen a'ch pastwn eich hun, i flaenoriaethu gwaith a chadw at derfynau amser, gyda sgiliau rheoli amser da.
4. Sgiliau rhyngpersonol rhagorol ar bapur ac wyneb yn wyneb gydag ystod eang o bobl a allai fod â chredoau neu agendâu gwahanol.
5. Sgiliau llythrennedd digidol eithriadol (Microsoft Office, PowerPoint ar y we) ac offer dadansoddi i fesur effaith gweithgareddau digidol.
6. Gallu sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfathrebu digidol ar gyfer rhaglen Amser i Newid Cymru drwy gyfrwng sianeli Cymraeg a Saesneg.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth

1. Gwybodaeth gadarn o egwyddorion a chanllawiau brandio at ddibenion digidol.
2. Gwybodaeth fanwl am y modd y mae cyfryngau cymdeithasol yn cael eu datblygu, eu rheoli a'u defnyddio ar gyfer enw da brand, yn enwedig mewn rhwydweithiau cymunedol.
3. Gwybodaeth ymarferol am ddatblygu a rheoli gwefan a'r fewnwyd/allrwyd.
4. Parodrwydd a'r gallu i deithio ac aros dros nos o bryd i'w gilydd yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU.
5. Empathi â nodau a gwerthoedd Mind, gan gynnwys dealltwriaeth o bolisi cyfle cyfartal Mind ac ymrwymiad iddo.



Agweddau

1. Agwedd gadarnhaol ac anfeirniadol tuag at bawb.
2. Rhywun sy'n gallu ysgogi ei hun, yn llawn cymhelliant ac yn gallu blaenoriaethu a chyflawni amcanion gwaith ond sy'n gallu cymryd cyfarwyddyd hefyd.

Meini prawf dymunol

1. Gallu cyfathrebu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg
2. Profiad uniongyrchol neu anuniongyrchol o broblemau iechyd meddwl.
3. Dealltwriaeth o'r trydydd sector
4. Gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion iechyd meddwl a pholisi iechyd meddwl yng Nghymru.
5. Gwybodaeth am effaith stigma a gwahaniaethu.
6. Dealltwriaeth o fudiadau gwirfoddol cenedlaethol ym maes iechyd meddwl, a'u rhwydweithiau, neu strwythurau tebyg o fewn y sector gwirfoddol.